

14^{eg} o Fedi 2020

Annwyl riant/warcheidwad

Rwy'n ysgrifennu i'ch diweddarau am ein gweithdrefnau ar ôl dychwelyd yn llawn i'r ysgol, ac rwy'n falch o adrodd ei fod yn mynd yn dda. Rydym yn arbennig o falch o'r lefel ragorol o gydymffurfiaeth a pharch a ddangosir gan ein disgyblion, wrth iddynt addasu a dilyn yr arferion newydd. Rydym yn falch iawn fod presenoldeb yr ysgol gyfan yn agos at 96%, ac yr ydym yn gobeithio ei fod yn fesur o'r hyder sydd gennych chi fel rhieni yn ein gweithdrefnau. Diolch!

Trwy gydol y broses hon, rydym wedi cynnal gwiriadau ac adolygiadau rheolaidd o'n systemau, ac rydym yn asesu'r mwyafrif ohonynt fel rhai sy'n gweithio'n dda, gan gydbwysu yr angen i ddarparu profiad dysgu ystyrlon yn erbyn yr angen i sicrhau bod y risg o haint yn cael ei leihau. Er enghraifft, rydym yn teimlo bod ein grwpiau disgyblion, 'zones' a systemau unffordd, seibiannau gwahanol, defnyddio gorchuddion wyneb, trefn glanhau a gweithdrefnau dechrau/diwedd y dydd yn gweithio'n dda, a bydd y rhain yn aros mewn lle.

Fodd bynnag, rydym yn teimlo y gellir gwneud rhai gwelliannau bach, ar Lefel CA3 yn benodol, trwy ganiatáu i ddisgyblion symud o ystafell i ystafell ar gyfer rhai gwersi, yn hytrach na chael eu cyfyngu i un ystafell ddosbarth, fel yw ein harfer presennol (mae disgyblion CA4 yn symud ystafelloedd dosbarth). Mae yna lawer o resymau pam rydyn ni'n teimlo bod hyn yn well:

- Mae symudiad staff rhwng gwersi yn gadael cyfnod byr o amser pan fydd disgyblion heb oruchwyliaeth yn ystod newid gwersi, sy'n bryder diogelu.
- Ar hyn o bryd mae'r disgyblion mewn un ystafell ddosbarth am y diwrnod cyfan, nid yw hyn yn fuddiol i'w hiechyd emosiynol, a / neu eu lles feddyliol.
- Mewn diwrnod addysgu arferol gall hyd at 5 aelod o staff, sydd mewn categori perygl uwch o haint, ddysgu mewn un ystafell ddosbarth gan rannu'r offer, y ddesg a'r bwrdd gwyn yn yr ystafell honno. Byddai caniatáu i aelodau staff aros yn eu hystafell ddosbarth eu hunain, a chael eu holl adnoddau ac offer eu hunain wrth law, yn lleihau'r risg o groes-gymysgu, o'i gymharu â staff yn symud rhwng sawl lleoliad.
- Bydd gan staff fwy o berchnogaeth a rheolaeth dros eu lle addysgu, a'r offer sydd ynddo. Bydd hyn yn caniatáu i staff oruchwyllo arferion glanhau a glanweithio llym ar gyfer pob gwर्स, gan sicrhau bod yr holl offer yn cael eu glanhau a bod dwylo pob disgybl yn cael eu diheintio rhwng pob gwर्स.
- Bydd disgyblion yn parhau i ddefnyddio ein system unffordd wrth symud o amgylch yr Ysgol, ac felly ni fydd unrhyw achlysur pan fydd y coridorau'n orlawn, neu pan fydd disgyblion yn cerdded 'yn erbyn' ei gilydd. Bydd disgyblion yn parhau i ddefnyddio mygydau wyneb wrth symud o gwmpas y tu fewn i'r adeilad, fel y maent ar hyn o bryd.
- Bydd gan bob disgybl fynediad i ystafelloedd dosbarth arbenigol, fel Gwyddoniaeth a Thechnoleg, ac felly byddant yn gallu cymeryd rhan ym mhob agwedd o'r cwricwlwm yn y pynciau hyn.
- Bydd grwpiau/swigod y disgyblion yn parhau i aros yr un fath ar gyfer pob maes pwnc. Hynny yw, ni fydd grwpiau addysgu yn newid yng Nghyfnod Allweddol 3 o'r wers i'r wers. Bydd grwpiau penodol yn parhau i gael eu penodi i 'zones' yn ystod amser egwyl a chinio, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.




Yn ogystal, byddwn yn cyflwyno cyfnod bugeiliol yn ystod y dydd, pan fydd disgyblion, eto o fewn eu grwpiau addysgu, yn cael cyfle i gwrdd â'u tiwtor dosbarth. Teimlwn fod hwn yn ddarpariaeth bwysig nad ydym wedi gallu ei hamserlennu hyd yn hyn.

Credwn yn gryf y bydd y newidiadau hyn yn helpu i fireinio a gwella ein darpariaeth dysgu a diogelu ar gyfer disgyblion a staff. Byddwn yn parhau i gydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru, ac rydym wedi cynnal asesiad risg llawn sydd ar gael ar ein gwefan. Mae'r newidiadau wedi eu rhannu gyda'r disgyblion, a byddant yn dechrau yfory (dydd Mawrth). Os hoffech drafod y newidiadau hyn, neu unrhyw fater arall sy'n ymwneud â dychwelyd i'r ysgol, e-bostiwch: office@ysgolbrogwaun.com

Diolch unwaith eto am eich cefnogaeth barhaus.

Yr eiddoch yn gywir



Mr Paul Edwards
Pennaeth